# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 29 Mawrth 2018.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, William N Owen, Geraint Wigley a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Siôn Ifans, Gareth W Jones, Iwan Pughe Jones, S Gareth Owen, Aeron Pughe, Gwenfair E Rhys-Davies, a Huw M Williams.

**18.17. Cyflwyniad gan Mr Mark Gahan.**

Eglurodd Mr Gahan ei fod yn gweithio i'r "Severn Wye Energy Agency" ac eu bod yn rhedeg cynllun grantiau ar rhan y "Big Lottery Fund". Aeth ymlaen i egluro fod y cynllun "Dyfodol Gwledig" yn cynnwys grantiau hyd at £3,500-00 ac ei fod eisioes wedi cwrdd gyda cynrychiolwyr o Ganolfannau Aberhosan, Derwenlas a Glantwymyn. Atebodd nifer o cwestiynau gan yr aelodau ac ychwanegodd ei fod yn gobeithio cynnal digwyddiadau ynglyn y cynllun yn y Canolfan yn Glantwymyn.

**18.18. Datganiadau o diddordeb.**

18.1. Eglurodd Cyng **Paul Hughes** mi fydd rhaid iddo ddatgan diddordeb o dan "Materion ariannol".

**18.19. Cofnodion cyfarfod 22 Chwefror 2018.**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**18.20. Materion yn codi o'r cofnodion.**

16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y phrosiect pibellau dwr yng Nghwmlline a rhoddodd ddiolch i Cyng Deryck Lewis am ei gymorth gyda problemau ynglyn y goleuadau traffig yn y pentref.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Darllenodd y Clerc diweddariad gan Ms Kim Kehoe, Dwr Cymru.
17.57.7. Problemau gyda sefyllfa audit y Cyngor. Rhoddodd y Clerc diweddariad ac eglurodd ei fod wedi derbyn ffurflenni addas at cofnodi datganiadau o diddordeb gan Cynghorwyr.

**18.21. Cynllunio.**

21.1. P/2018/0060 - Codi ty newydd ar rhif 4, Coed-yr-Onnen, Glantwymyn. Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yma wedi cael caniatad amodol gan y Cyngor Sir.
21.2. VAR/2018/0015 - Cais i newid amodau caniatad M/2001/0477 yn Cysgod-y-Coed, Llanwrin. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod gan y Cyngor Cymuned dim barn ar y cais yma.
21.3. TREE/2018/0009 - Cais i cwympo coeden ger Bryncoegen, Cemaes. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi'r cais yma.

**18.22. Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**

22.1. Cadarnhaodd y Clerc fod y newidiadau i'r mandate gyda Banc Barclays wedi cael eu derbyn o'r diwedd ac fod y taliadau dyledus i gyd wedi cael eu talu.
22.2. Cadarnhaodd y Clerc fod y cyfanswm yn y banc ar 26 Mawrth 2018 yn £16,938-91. Eglurodd ei fod yn disgwyl i'r sefyllfa yma parhau hyd at diwedd y blwyddyn ariannol.
22.3. Taliad i Paul Hughes am gwaith ar llwybr yr Eglwys yn Darowen. Datganiwyd diddordeb gan **Cyng Paul Hughes** a gadawodd yr ystafell. Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost gan Mr David Perrott yn mynegu pryder am cyflwr y maes parcio tu allan i'r Eglwys yn Darowen yn dilyn gwaith ychwanegol yn ddefnyddio'r hen tarmac oddi ar llwybr y fynwent. Eglurodd Cyng Geraint Wigley ei fod yn ymwybodol am y gwaith ychwanegol ar y maes parcio ac fod nifer o thrigolion Darowen yn teimlo fod y gwaith yn gwelliant sylweddol i'r maes parcio. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn egluro hyn i Mr Perrott. Cadarnhaodd y Clerc a'r Cadeirydd bod y gwaith i llwybr yr Eglwys yn ardderchog. Cytunwyd taliad o £3,350-00. Dychwelodd **Cyng Paul Hughes** i'r ystafell.

**18.23. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
23.1. Cyngor Sir Powys. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan fod Cyng Jonathan Wilkinson a Cyng Liam Fitzpatrick wedi gadael cabinet Cyngor Sir Powys ac felly mae gan y cabinet wyth o aelodau ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw cynllun i ychwanegu at y cabinet ar hyn o bryd. Rhoddodd hefyd diweddariad ar y sefyllfa gyda Gwasanaethau Plant a Hen Bobl yn y Cyngor Sir.
23.2. Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan fod y contractiwr wedi cael ei ddewis i codi'r adeilad newydd i'r ysgol ym Machynlleth.
23.3. Neuadd Glantwymyn. Cadarnhaodd Cyng Paul Hughes mi fydd y llawr yn yr Ysgol Feithrin yn cael sylw yn ystod gwyliau'r haf.
23.4. Llywodraethwyr Ysgolion. Cadarnhaodd Cyng Aled Griffiths fod y sefyllfa ariannol yn weddol sefydlog ar hyn o bryd. Gobeithir cychwyn ar y gwaith gwelliant i'r ysgol cyn bo hir ond mae yna pryderon ynglyn a gweithgareddau Calon Cymru.

**18.24. Gohebiaeth.**
24.1. Llythr gan Mr Glenn Ward yn cynnig pris o £1,400-00 am torri'r gwair ym mynwentydd Darowen a Llanwrin. Cadarnhaodd y Clerc fod y ffigwr yr un pris a'r blwyddyn cynt. Mynegodd Cyng Aled Griffiths siom fod y Clerc wedi darllen allan y ffigwr heb rhoi cyfle i ymgeiswyr eraill cynnig am y gwaith yma. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mi fydd rhaid cyhoeddi'r gwaith yn y dyfodol mewn digon o amser i cael mwy nag un cynnig. Cytunwyd derbyn pris Mr Glenn Ward am 2018 ond rhaid cael gweld ei manylion yswiriant.
24.2. Llythr o ddiolch gan Mrs Nora Wigley ar rhan Pwyllgor Canolfan Glantwymyn am y cyfraniad ariannol o £1,500-00 a dderbyniwyd gan y Cyngor Cymuned.
24.3. E-bost gan Mr Tom Jenkins, Comisiwn Ffiniau Democratiaeth Leol Cymru, ynglyn a manylion canllaw i brif Gynghorau ynglyn a cynnal arolwg o'u Cymunedau Lleol.
24.4. E-bost gan Mr Paul Egan, Un Llais Cymru, ynglyn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r effaith ar Cynghorau bach.
24.5. E-bost gan Mr Farhan Khan, Llywodraeth Cymru, ynglyn ag Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Powys. Eglurodd y Clerc fod yr arolwg ddim yn effeithio ar sefyllfa Cymunedau Cadfarch a Glantwymyn.
24.6. E-bost gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi Adroddiad ar Rheolaeth Ariannol a Llywodraethiant yng Nghymru yn y blwyddyn ariannol 2016/17.
24.7. E-bost gan Mr Jonathan Brenchley, Banc Barclays, ynglyn y penderfyniad i cau cangen Banc Barclays ym Machynlleth ar 21 Medi 2018. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu i mynegu siom ynglyn y penderfyniad yma ac yn erfyn ar y Banc I cadw peiriant arian di-dal ym Machynlleth.
24.8. E-bost gan Ms Issy Gibbs, Grant Thornton, yn ymddiheuro mi fydd y ffurflenni i'r audit yn dod allan yn hwyr eleni.
24.9. E-bost gan Mr Peter Morris, Cyngor Sir Powys, yn rhoi gwybod fod y Cyngor Sir wedi derbyn Adroddiad yr Arolygydd ar Gynllun Datblygu Lleol Powys a'i fod wedi'i gyhoeddi.
24.10. E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynlyn a Digwyddiad ar y Cyd Un Llais Cymru / SLCC ar 16 Mai 2018.
24.11. E-bost gan Mr Michael Paton, Carter Jonas, ynglyn a gwaith heb caniatad ar y Comin ym mhentref Cwmlline. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd roedd gan yn Cynghorwyr dim gwybodaeth am y gwaith yma ac yn bendant ddim wedi caniatau y gwaith. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn egluro hyn i Mr Paton.
24.12. E-bost gan Cyngor Sir Powys gyda manylion newyddion y Cyngor Sir.
24.13. E-bost gan Mr Russell George AC gyda newyddion Mis Mawrth 2018.

**18.25. Unrhyw fater arall.**
25.1. Problemau gyda sbwriel ger Glanyrafon, Commins Coch. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod yna problemau gyda sbwriel ger rhif 1 a 2 Glanyrafon, Commins Coch. Cytunwyd cadw golwg ar y sefyllfa.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 26 Ebrill 2018.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 31 Mai 2018.**